O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2014 Rhif 3127 (Cy. 316) (C. 136)

# TAI, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Tai (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 1) 2014

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Dyma'r gorchymyn cychwyn cyntaf i Weinidogion Cymru ei wneud o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("y Ddeddf"). Mae'n cychwyn darpariaethau penodol yn y Ddeddf at wahanol ddibenion ar 1 Rhagfyr 2014.

Mae erthygl 2(a) yn cychwyn, at bob diben, ddarpariaethau penodol yn Rhannau 4, 5, 6, 8 a 9 o'r Ddeddf, a Rhannau 3 a 5 o Atodlen 3 iddi.

Mae Rhan 4 o'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru bennu safonau ar gyfer tai cymdeithasol. Mae hefyd yn cyflwyno Rhan 3 o Atodlen 3 sy'n cynnwys diwygiadau canlyniadol i Ran 4. Caiff y Rhan hon ei chychwyn yn llawn, ac eithrio adran 129 (cymhwyso dyletswyddau sy'n ymwneud â ffioedd gwasanaeth i denantiaethau awdurdod lleol).

Mae Rhan 5 o'r Ddeddf yn diddymu cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai; fodd bynnag, ni chychwynnir ond adran 131(4)(c) o Ran 5 yn awr. Mae hyn yn diddymu paragraff 2, Rhan 3 o Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42) (balans credyd pan nad yw cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai yn daladwy).

Mae Rhan 6 o'r Ddeddf yn diwygio Deddf Tai 1988 (p. 50) (Tenantiaethau Sicr - tenantiaethau na allant fod yn denantiaethau sicr). Cychwynnir adran 137 yn llawn er mwyn caniatáu i gymdeithasau tai cwbl gydfuddiannol roi tenantiaethau sicr.

Mae Rhan 8 o'r Ddeddf yn diwygio Rhan 1 o Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 (p. 28) (Landlord a Thenant). Mae hefyd yn diddymu, mewn perthynas â Chymru, Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Diwygio) Cymru 2014. Mae'r diwygiadau yn caniatáu i hysbysiadau gael eu llofnodi ar ran tenantiaid.

Mae Rhan 9 o’r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau amrywiol. Mae’r Gorchymyn hwn yn cychwyn y darpariaethau nad ydynt eisoes mewn grym. Mae adran 141 yn cyflwyno Rhan 5 o Atodlen 3 i’r Ddeddf. Mae hyn yn gwneud mân ddiwygiadau i Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 (dccc 6). Mae adran 144 yn cynnwys pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau canlyniadol a throsiannol etc.

Mae erthygl 2(b) yn cychwyn darpariaethau penodol yn Rhannau 1 a 2 o’r Ddeddf, ac Atodlen 2 iddi, ond at ddibenion gwneud gorchmynion a rheoliadau, a rhoi cyfarwyddiadau yn unig.

Mae erthygl 2(c) yn cychwyn darpariaethau penodol yn Rhannau 1, 2 a 3 o’r Ddeddf, ond at ddibenion rhoi, adolygu neu ddirymu canllawiau statudol a dyroddi, diwygio neu dynnu’n ôl god ymarfer yn unig.

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2014 Rhif 3127 (Cy. 316) (C. 136)

# TAI, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Tai (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 1) 2014

*Gwnaed* *24 Tachwedd 2014*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 145(3) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014(**1**).

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Tai (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 1) 2014.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Tai (Cymru) 2014.

**Diwrnod penodedig**

**2.** 1 Rhagfyr 2014 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dwyn i rym—

(a) darpariaethau'r Ddeddf a restrir yn Rhan 1 o'r Atodlen at bob diben;

(b) darpariaethau'r Ddeddf a restrir yn Rhan 2 o'r Atodlen at ddibenion gwneud gorchmynion a rheoliadau, a rhoi cyfarwyddiadau; ac

(c) darpariaethau'r Ddeddf a restrir yn Rhan 3 o'r Atodlen at ddibenion rhoi, adolygu neu ddirymu canllawiau statudol a dyroddi, diwygio neu dynnu'n ôl god ymarfer.

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, un o Weinidogion Cymru
24 Tachwedd 2014

(**1**) 2014 dccc 7.

# YR ATODLEN Erthygl 2

## Y darpariaethau sy’n dod i rym ar 1 Rhagfyr 2014

## RHAN 1

### Darpariaethau sy’n dod i rym at bob diben

**1.** Adrannau 111 i 128 (safonau ar gyfer tai a ddarperir gan awdurdodau tai lleol).

**2.** Adran 130 a Rhan 3 o Atodlen 3 (diwygiadau canlyniadol sy’n berthnasol i Ran 4 o’r Ddeddf).

**3.** Adran 131(4)(c) (cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai **-** balans credyd pan nad yw cymhorthdal yn daladwy).

**4.** Adran 137 (caniatáu i gymdeithasau tai cwbl gydfuddiannol roi tenantiaethau sicr).

**5.** Adran 140 (diwygio Deddf Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993).

**6.** Adran 141 a Rhan 5 o Atodlen 3 (mân ddiwygiadau i Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013).

**7.** Adran 144 (pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc).

## RHAN 2

### Darpariaethau sy’n dod i rym at ddibenion gwneud gorchmynion, rheoliadau a chyfarwyddiadau

**8.** Adran 2 (ystyr y prif dermau).

**9.** Adran 3 (awdurdod trwyddedu).

**10.** Adran 5 (eithriadau i’r gofyniad i landlord fod yn gofrestredig).

**11.** Adran 6 (gofyniad i landlord fod yn drwyddedig i ymgymryd â gweithgareddau gosod).

**12.** Adran 7 (gofyniad i landlord fod yn drwyddedig i ymgymryd â gweithgareddau rheoli eiddo).

**13.** Adran 8 (eithriadau i ofynion i landlord fod yn drwyddedig).

**14.** Adran 10 (ystyr gwaith gosod).

**15.** Adran 12 (ystyr gwaith rheoli eiddo).

**16.** Adran 14 (dyletswydd i gynnal cofrestr mewn perthynas ag eiddo ar rent).

**17.** Adran 15 (cofrestru gan awdurdod trwyddedu).

**18.** Adran 16 (dyletswydd i ddiweddaru gwybodaeth).

**19.** Adran 19 (gofynion cais am drwydded).

**20.** Adran 20 (gofyniad person addas a phriodol).

**21.** Adran 21 (penderfynu ar gais).

**22.** Adran 23 (dyletswydd i ddiweddaru gwybodaeth).

**23.** Adran 29 (hysbysiadau cosbau penodedig).

**24.** Adran 34 (pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas ag adrannau 32 a 33).

**25.** Adran 42 (cyfarwyddiadau).

**26.** Adran 46 (rheoliadau ar ffioedd).

**27.** Adran 49 (dehongli Rhan 1 a mynegai o dermau wedi eu diffinio).

**28.** Adran 50 (dyletswydd i gynnal adolygiad digartrefedd a llunio strategaeth ddigartrefedd).

**29.** Adran 57 (a yw'n rhesymol parhau i feddiannu llety).

**30.** Adran 59 (addasrwydd llety).

**31.** Adran 72 (pŵer i ddiwygio neu ddiddymu darpariaethau ynghylch angen blaenoriaethol am lety).

**32.** Adran 78 (penderfynu rhoi sylw i fwriadoldeb).

**33.** Adran 80 (atgyfeirio achos at awdurdod tai lleol arall).

**34.** Adran 81 (cysylltiad lleol).

**35.** Adran 86 (gweithdrefn ar gyfer adolygiad).

**36.** Adran 95 (cydweithredu).

**37.** Adran 99 (dehongli Rhan 2).

**38.** Paragraff 1 o Atodlen 2 (personau nad ydynt yn gymwys i dderbyn cymorth).

## RHAN 3

## Darpariaethau sy'n dod i rym at ddibenion rhoi, adolygu neu ddirymu canllawiau statudol a dyroddi, diwygio neu dynnu'n ôl god ymarfer

**39.** Adran 20 (gofyniad person addas a phriodol).

**40.** Adran 40 (cod ymarfer).

**41.** Adran 41 (canllawiau).

**42.** Adran 64 (sut i sicrhau neu gynorthwyo i sicrhau bod llety ar gael).

**43.** Adran 98 (canllawiau).

**44.** Adran 106 (canllawiau).